# Archaeoleg ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif

Canllawiau Cynllunio Atodol




Cymeradwywyd Gorffennaf 2018

CARDIFF
CAERDYDD

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 3
2. Diffinio Archaeoleg 3
3. Rolau a Chyfrifoldebau 4
4. Archaeoleg yng Nghaerdydd 4
5. Prosesu Ymholiadau Cynllunio Archeolegol 5
6. Cyd-destun Polisïau Cenedlaethol 6
7. Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 8
8. Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol 9
9. Archaeoleg yn y Broses Gynllunio 9
    - A: Ymgynghoriad cynnar ar y cam cyn cynllunio 9
    - B:Caniatâd cynllunio ac amodau atodol 11
    - C:Cyflawni amodau cynllunio 13
    - D:Torri amodau cynllunio; gorfodi 13
    - E:Deunydd archeolegol y deuir o hyd iddo wedi cychwyn y datblygiad 14
10. Safleoedd a Amddiffynnir yn Statudol 14
11. Ardaloedd archeolegol sensitif 15
    - AAS 1: Canol y Ddinas 17
    - AAS 2: Llandaf 20
    - AAS 3: Sain Ffagan a Llanfihangel-ar-Elái 23
    - AAS 4: Gwastadeddau Gwynllŵg 26

Atodiadau:

- Siart llif cynllunio archeolegol
- Sut mae dod o hyd i archeolegydd?
- Rhestr o Dermau
- Sylwadau ac Ymatebion Ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft
- Deddfwriaeth a Chanllawiau


Clawr: Map Caerdydd John Speed, 1610

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn rhoi arweiniad ar dreftadaeth archeolegol y ddinas o fewn y broses gynllunio.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio CCA i nodi canllawiau manwl ar y ffordd y caiff polisïau cynllunio datblygu eu rhoi ar waith mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i'r CCA fod yn gyson â pholisïau cynllunio datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Cyn ei fabwysiadu, bydd CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y cyngor. Pan fydd wedi'i fabwysiadau, mae CCA yn mynd yn ystyriaeth sylweddol wrth bennu ceisiadau cynllunio perthnasol.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn rhoi rhagor o arweiniad o sut mae Polisïau KP7 ac EN9 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Caerdydd 2006-2026 i gael eu gweithredu ac i ddisgrifio sut yr ystyrir archaeoleg yn y broses gynllunio. Mae'n rhoi manylion am bolisïau cenedlaethol a lleol; sut y caiff yr adnodd archeolegol y gwyddys amdano ei gofrestru a sut y rheolir y data; sut mae'r broses cynllunio yn delio gydag asedau archaeoleg a hanesyddol ac yn diffinio Ardaloedd Archeolegol Sensitif a natur Archaeoleg.

1.4 Mae ardal Cyngor Caerdydd yn cynnwys amrywiaeth fawr o lawer o weddillion hanesyddol ac archeolegol. Mae'r rhain yn amrywio o ran oed, hyd a phwysigrwydd, ond maent i gyd yn adnoddau cyfyngedig. Mewn rhai ardaloedd lle bo mwy o botensial i weddillion archeolegol oroesi, cafodd Ardaloedd Archeolegol Sensitif (AAS) eu darlunio.

1.5 Mae'r holl ddata yn gywir adeg ei gasglu (31 Gorffennaf 2017). Mae'n arferol i ffigyrau newid yn rheolaidd ac felly, er mwyn cael set data ffigyrau diweddar, dylid cysylltu â GGAT HER.

1.6 Pan gaiff ei mabwysiadu, bydd y ddogfen hon yn cymryd lle'r CCA a gymeradwywyd yn 2006.

# 2 Diffinio Archaeoleg

2.1 Mae gweddillion archeolegol yn ffynhonnell gyfyngedig bwysig am y gorffennol. Mae eu hymchwilio, a, lle y bo'n briodol, eu cadw yn bwysig yn ei hawl ei hun a gall ddarparu adnodd addysgol a thwristiaeth amhrisiadwy. Mae'n bwysig cadw'r adnodd hwn a sicrhau na chaiff gweddillion sy'n bresennol o bosibl eu dinistrio trwy anwybodaeth o ran eu lleoliad a'u pwysigrwydd, neu drwy ddatblygu esgeulus. Gellir lliniaru effaith llawer o fathau o ddatblygiadau ar y rhain trwy wahanol ddulliau, ac maent yn dibynnu ar fath y datblygiad a math yr adnodd archeolegol.

2.2 Ystyr Archaeoleg yw astudio hanes dynol trwy ei weddillion corfforol; mae'r gweddillion hyn yn cynnwys nodweddion ar wyneb y ddaear ac o dan y ddaear. Mae'r gweddillion hyn yn dweud sut y bu pobl yn y gorffennol yn byw, yn gweithio, yn bwyta ac yn yfed, yn teithio ac yn marw. Gall tystiolaeth o'r gweithgarwch yn y gorffennol fod yn weddillion ar raddfa eang neu ar raddfa fach; adeiladau, adfeilion, tirweddau, parciau a gerddi, darganfyddiadau unigol, darganfyddiadau ar wasgar megis yn safleoedd gwaith fflint.

2.3 Gall gweddillion a gladdwyd gynnwys arteffactau sydd yn aml yn ddarfodedig, wedi cadw mewn amodau anaerobig, deunyddiau organig megis lledr a ffabrigau, yn ogystal â deunyddiau planhigion. Gellir adnabod y gweddillion hyn trwy ymyriadau ffisegol ymwthiol, megis agor ffosydd prawf, cloddio agored, samplo pridd, planhigion a darganfyddiadau archeolegol, neu ymyriadau nad ydynt yn ymwthiol, megis arolwg geoffisegol, LiDAR, adolygu ffotograffau o'r awyr, atchwelyd trwy fapiau hanesyddol, arolygon cerdded drosodd, sganio a modelu laser 3D.

## 3 Rolau a Chyfrifoldebau

3.1 Yng Nghymru, nid oes gan awdurdodau cynllunio lleol arbenigedd cynllunio archeolegol mewnol. Darperir hyn gan y pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru, yn ne-ddwyrain Cymru gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent ar gyfer cynllunio sy'n perthyn i weddillion archeolegol heb eu dynodi (gweler Atodiad 4 i gael manylion cyswllt).

3.2 Mae Cadw, gwasanaeth hanesyddol Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor ar amddiffyn a chadw safleoedd dynodedig a warchodir yn statudol megis henebion rhestredig, adeiladau rhestredig, tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol, Safleoedd Treftadaeth y Byd a meysydd y gad.

## 4 Archaeoleg yng Nghaerdydd

4.1 Mae'r amrywiaeth o weddillion Archeolegol yn ardal awdurdod lleol Caerdydd yn cwmpasu dyddiadau sy'n amrywio o'r cyfnod Paleolithig, y cyfnod cyn diwedd yr oes iâ diwethaf, Neolithig, cyfnod ffermio sefydlog tua 5000 i 2500 o flynyddoedd CC; tan safleoedd milwrol a diwydiannol modern yr 20fed ganrif. Mae natur y gweddillion yn amrywio'n enfawr gyda darganfyddiadau Mesolithig a Neolithig wedi'u gwasgaru ar draws yr ardal, ond gyda gweithgarwch wedi'i dwysáu ar y Gwastadeddau, gydag ond ychydig o dystiolaeth o strwythurau neu aneddiadau, i safleoedd helaeth wedi'u tirlunio'n drwm gyda strwythurau mawr megis y rhai o gwmpas y dociau a chanolfan ddinesig yr 20fed ganrif a mannau agored ffurfiol wedi'u cynllunio.

4.2 Ni ellir archwilio rhai safleoedd megis y gwaith arfau rhyfel ar ei ben ei hun; mae'n ffurfio rhan o ymdrech ehangach ar gyfer y rhyfel. Mae'r un peth yn bwysig ar gyfer y seilwaith diwydiannol cyd-gysylltiedig, sy'n dyddio o ddiwedd y 18fed ganrif, gyda thirweddau echdynnu mwynau a metelegol yn y cymoedd i'r gogledd yn cael eu cludo i'r dociau gan gamlesi a rheilffyrdd. Mae'r systemau olaf hyn yn cynrychioli de Cymru ac yn cyfrannu ati, wrth iddi fynd yn arweinydd y byd o ran diwydiannau metelegol megis haearn, dur a chopr, gyda chysylltiadau rhyngwladol ar gyfer allforio glo a metelau gorffenedig o gwmpas y byd.

4.3 Mae clystyrau dwys o aneddiadau megis yng nghanol dinas Caerdydd yn cynrychioli anheddiad parhaus ers dros ddwy fil o flynyddoedd, o gyfnod y Rhufeiniaid, a bydd yr adnodd archeolegol yn gyfuniad o adeiladau sy'n sefyll yn unionsyth a thystiolaeth o dan y ddaear sy'n haenedig yn ddwfn o aneddiadau cynharach. Mae'n bosibl y bydd pentrefi, gan gynnwys y rhai sydd bellach yn yr ardal drefol, sydd â tharddiadau canoloesol megis Sain Ffagan, Llanisien a Llanedern wedi crebachu o ran eu maint ar ôl pla neu ddirywiad economaidd, gan adael gweddillion aneddiadau wedi'u claddu.

4.4 Mae’n bosibl, felly, y bydd gan ardaloedd sydd â mwy o botensial neu sensitifrwydd Archeolegol ychydig o bwyntiau data yn rhifiadol. Er enghraifft, byddai gan faenorau canoloesol (ffermydd a berchnogwyd gan gymunedau mynachaidd a’u ffermio gan leygwyr) a oedd yn helaeth o ran darnau o dir, ychydig o adeiladu a chedwir hyn bellach fel enwau lleoedd, megis Grangetown, er bod gan Lys Talybont a'r Rhath, faenorau.

4.5 Mae natur y gweddillion hyn yn amrywio’n helaeth, gyda’r gweddillion paill cyn-hanesyddol sy'n dyddio o waddodion sy'n haenedig yn drwm ym Mharc Triden, tystiolaeth wasgaredig o offer fflint Mesolithig a Neolithig, heb dystiolaeth o strwythurau, i safleoedd helaeth, wedi'u tirweddu'n drwm megis Dociau Caerdydd, a seilwaith rheilffyrdd a chamlesi modern.

## 5 Prosesu Ymholiadau Cynllunio Archeolegol

**5.1** **Argymhellir ymgynghori gyda** chynllunio Archeolegol **GGAT,** fel ymgynghorwyr cynllunio Archeolegol i'r awdurdod cynllunio lleol yn gryf, a hynny **ar gam cynharach cynnig datblygu**.

5.2 Os oes gofyn am waith archeolegol, mae'n **bwysig i'r datblygwyr gyflogi ymgynghorydd archeolegol neu gontractwr archeolegol ar gam cynnar** er mwyn sicrhau yr ymgymerir â gwaith o safon, gan osgoi oedi.

5.3 Bydd ymgynghori’n gynnar yn nodi a oes cyfyngiad sylweddol a allai atal datblygu o bosibl, neu a oes effaith archeolegol ar ddatblygiad. Y cam cyntaf fydd darparu ffin amlinellol o'r ardal i'w datblygu, ar ffurf llinell goch, ac sy’n cynnwys unrhyw draciau neu ffyrdd mynediad, cysylltiadau gwasanaethau a chaeadleoedd safleoedd, yn ogystal â disgrifiad ysgrifenedig byr o’r datblygiad arfaethedig. Mae’n bwysig darparu naill ai cyfeirnod grid cywir neu gynllun â geogyfeiriadau; hefyd dyfynnu unrhyw gyfeirnod cynllunio.

5.4 Bydd y tîm cynllunio yn cyfeirio at Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, ac os ganfyddir unrhyw ddata yr effeithir arno, ar y cychwyn mae dwy ffordd o symud ymlaen: gwaith rhagderfynu, neu ôlderfynu fel amod:

**Rhagderfynu:** os yw’r adnodd Archeolegol yn sylweddol, neu heb ei ddeall yn llawn o'r ymdeimlad o sicrhau y caiff lliniaru priodol ei argymell, yna mae gofyn am waith Archeolegol rhagderfynu ar y cychwyn. Gall hyn gymryd ffurf asesiad asedau archeolegol neu dreftadaeth, sy’n edrych ar y wybodaeth bresennol, atchwelyd mapiau, gwaith Archeolegol blaenorol yn yr ardal, gwybodaeth geodechnegol, yr effaith ar y lleoliad ac yn asesu effaith y datblygiad. Bydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer rhagor o waith Archeolegol pellach os bydd ei angen, a allai hefyd fod yn rhagderfynu. Gallai hyn fod yn arolwg geoffisegol a ddilynir gan arfarniad prawf o gae ffosiog, a fydd yn canfod dyfnder a natur gweddillion archeolegol. Mae hyn hefyd yn cynnwys rhywfaint o samplau a gwneud profion, yn ogystal â phrosesu darganfyddiadau ar ôl y cloddio. Mae cyflwyno adroddiad ar y gwaith maes yn angenrheidiol er mwyn sicrhau'r cam nesaf yn y broses a bydd hefyd â cham y gellir ei archwilio yn y broses er mwyn bodloni Safonau a Chanllawiau'r corff proffesiynol (Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr), a chaiff adroddiadau a gwaith maes eu monitro gan dimau cynllunio Ymddiriedolaethau Cymru.

**Ôl-derfynu:** mae hynny pan ymgymerir â gwaith Archeolegol er mwyn lliniaru'r datblygiad trwy amod a atodir i'r caniatâd, a rhoddir gwybod i'r awdurdod cynllunio lleol gan y tîm cynllunio Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru perthnasol. Gall gwaith gynnwys cofnodi adeiladau, gorchwyl gwylio, stripio, mapio a chofnodi, cloddio ardal agored, neu samplo. Mae'n bosibl y caiff ei eirio fel amod negyddol, h.y. "ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd tan..." ac fel arfer mae'n gofyn bod archeolegydd y datblygwr yn cyflwyno cynllun ysgrifenedig i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith ddigwydd. Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith yn bodloni'r lliniaru a argymhellir. Bydd gofyn bob amser am adroddiad sy'n cynnwys canlyniadau'r gwaith i gyflawni'r amod ac i sicrhau y cedwir gwybodaeth Archeolegol dan gofnod cywir.

## 6 Cyd-destun Polisïau Cenedlaethol

6.1 Rhestrir Polisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9, Tachwedd 2016): dyma'r polisi defnydd tir ar gyfer Cymru, mae'n cynnwys yr amgylchedd hanesyddol ac mae wedi'i atodi gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN), ac yn benodol o ran yr amgylchedd hanesyddol TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

6.2 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol er mwyn gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru; sy'n gwarchod strwythurau rhestredig ac atodol yn fwy effeithiol ac yn gwella mecanweithiau presennol er mwyn rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.

6.3 Mae mesurau newydd yn cynnwys creu cofrestr statudol parciau a gerddi hanesyddol a phanel annibynnol i gynghori ar bolisi a strategaeth yr amgylchedd hanesyddol; pwerau i awdurdodau lleol weithredu'n gyflym os yw adeiladau hanesyddol o dan fygythiad ac er mwyn dod â gwaith anawdurdodedig a gwaith sy'n difrodi henebion atodol i ben. Mae hefyd yn sicrhau dyfodol mwy sefydlog ar gyfer Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru. Dolen i'r Ddeddf: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/section/1

**Polisi Cynllunio Cymru**

6.4 Mae Pennod Chwech o Bolisi Cynllunio Cymru, Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol, yn delio gyda gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae ei amcanion yn cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol, gweddillion Archeolegol ac adeiladau hanesyddol fel adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu, a hefyd fel adnodd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae nodi pwysigrwydd rôl awdurdodau cynllunio lleol wrth sicrhau hyn fel rhan o'i gylch gorchwyl ehangach a phwysigrwydd gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth. Y diweddaraf hyd yn hyn (ar 31 Gorffennaf 2017) yw Rhifyn 9, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. Cysylltiad â Phennod Chwech cyfredol Polisi Cynllunio Cymru: http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-6-en.pdf

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol**

6.5 Dyma un o Nodiadau Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru sy'n atodi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, o ran yr amgylchedd hanesyddol ac mae'n cymryd lle dau gylchlythyr y

Swyddfa Gymreig, sef 60/96 a 61/96. Dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, a chanllawiau arfer orau Gwasanaethau'r Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw), a dylai awdurdodau cynlluniau lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi eu cynlluniau datblygu ac wrth bennu ceisiadau cynllunio.

6.6 Diben y TAN yw rhoi arweiniad ar sut mae'r system cynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi'r cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio a chydsynio ar Adeiladau Rhestredig. Mae'n darparu arweiniad penodol ar:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd, eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol a'u lleoliad
- Henebion Rhestredig, a'u lleoliad
- Gweddillion Archeolegol, y maent i gyd yn ystyriaeth sylweddol wrth bennu cais cynllunio, a'u lleoliad
- Adeiladau Rhestredig
- Ardaloedd cadwraeth
- Parciau a gerddi hanesyddol
- Tirweddau Hanesyddol
- Asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

6.7 Wrth ddefnyddio'r TAN er mwyn creu cynlluniau datblygu trwy Werthusiadau Cynaliadwyedd ac asesiadau Amgylcheddol Strategol, Mae'n rhaid ystyried yr amgylchedd hanesyddol. Mae hefyd yn cyfrannu at anghenion system fodern ac atebol ar gyfer ystyried sut caiff newidiadau sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol eu rheoli trwy'r system cynllunio.

6.8 Mae'r TAN hefyd yn cynnwys cyngor ar Ganllaw Cynllunio Atodol (SPG) a gaiff ei ddatblygu a'i fabwysiadau o bosibl gan awdurdodau cynllunio lleol er mwyn eu cynorthwyo wrth ddarparu polisïau cynlluniau datblygu lleol. Mae'n bosibl y bydd canllawiau penodol sy'n perthyn i'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys y canlynol:

- Safleoedd Treftadaeth y Byd, a chadw'r Gwerth Cyffredinol Eithriadol
- Ardaloedd Archeolegol sensitif
- Rhestr o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig
- Nodweddu er mwyn arwain adfywio neu wella canol trefi
- Arweiniad ar gynllunio ar gyfer briffiau datblygu sy'n cynnwys asedau hanesyddol arwyddocaol
- Cynlluniau rheoli Ardaloedd Cadwraeth

6.9 Mae TAN 24 hefyd yn cynnwys rhestr o dermau, sy'n rhoi esboniadau wrth gyfeirio at yr amgylchedd hanesyddol: http://gov.wales/docs/desh/policy/170531tan-24-the-historic-environment-en.pdf

**Cynllun Gofodol Cymru 2008**

6.10 Mae Cynllun Gofod Cymru (Diweddariad 2008) yn darparu cyfeiriad strategol a rennir, cynllun y gellir ystyried buddsoddi a datblygu yn ei erbyn; mae'n datgan ac yn cydnabod bod Cymru gyfan a phob un o'r rhanbarthau yn gyfoethog o ran archaeoleg a hanes, sy'n rhan annatod o'i hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n rhoi cyd-destun a chyfeiriad i Gynlluniau Datblygu Lleol ac felly i reoli'r amgylchedd hanesyddol. Dolen at Ddiweddariad 2008:
http://gov.wales/docs/desh/publications/130701wales-spatial-plan-2008-update-en.pdf

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

6.11 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys hyrwyddo a gwarchod treftadaeth er mwyn dyfodol cynaliadwy. Er mwyn galluogi hyn, mae'n gosod saith nod ar gyfer gwelliant cynaliadwy i lesiant poblogaeth Cymru, sef: Cymru lewyrchus, Cymru wydn, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlyno, Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

6.12 O fewn hyn, cydnabyddir y cyfraniad a wneir gan ddealltwriaeth o'r amgylchedd hanesyddol, i warchod a hyrwyddo diwylliant a llesiant bywyd Cymru. Fel rhan o'r Ddeddf, mae gofyn i'r Cyrff Cyhoeddus a restrir i gynhyrchu deilliannau mesuradwy sy'n perthyn Dolen i'r Ddeddf: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_en.pdf

## 7 Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 - 2026

7.1 Mae polisïau lleol yn ategu'r rhai cenedlaethol ac yn achos asedau hanesyddol yn rhestru ymhellach sut y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynd i'r afael ag archaeoleg o fewn y broses gynllunio.

**Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 – 2026**

7.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydnabod pwysigrwydd y dreftadaeth adeiledig a'r dreftadaeth Archeolegol yng Nghaerdydd, ac yn fyr mae'n ymehangu ar yr ystod o ran dyddiad a math yr ardaloedd a warchodir sy'n neilltuo Caerdydd. Mae'r cyngor yn ceisio mynd i'r afael â materion pwysau neu effaith ar y rhain trwy gynnal dau bolisi thematig yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n perthyn i Archeolegol a threftadaeth, a'r Canllaw Cynllunio Atodol (SPG) hwn, sy'n canolbwyntio ar Ardaloedd Archeolegol Sensitif ac yn cynnwys mesurau i warchod, rheoli a gwella asedau treftadaeth ac amgylchedd hanesyddol yr ardal. Mae'r rhain yn argymell bod datblygwyr yn ymgynghori ar y cam cynharach â'r gwasanaeth cynllunio Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru perthnasol, cyn datblygu cynigion a all creu newid neu addasu i asedau treftadaeth.

**Polisi KP17: Treftadaeth Adeiledig (paragraffau 4.173 i 4.179)**

> *Caiff asedau treftadaeth nodedig eu gwarchod, ei rheoli a'u gwella, yn benodol, cymeriad a lleoliad ei Henebion Atodol; Adeiladau Rhestredig; Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Adeiladau a Restrir yn Lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu yn gadarnhaol i wahanolrwydd y ddinas.*

**EN9: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol (paragraffau 5.152 i 5.168)**

> *Caniateir datblygiadau sy'n perthyn i unrhyw un o'r asedau treftadaeth a restrir isod (neu eu lleoliadau) oni ellir dangos y byddant yn cadw neu'n gwella ansawdd pensaernïol, arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol, cymeriad, hygrededd a/neu leoliad yr ased.*
>
> *i. Henebion Atodol*
> *ii. Adeiladau rhestredig a'u hadeileddau cwrtil;*
> *iii. Ardaloedd cadwraeth*

*iv. Ardaloedd sensitif yn archeolegol;*
*v. Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol rhestredig; neu*
*vi. Adeiladau a restrir yn lleol o nod a nodweddion hanesyddol eraill o ddiddordeb sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at wahanolrwydd y ddinas.*

## 8 Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol

8.1 Mae Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol (CAH) yn gronfa ddata genedlaethol yng Nghymru sy'n cynnwys gwasanaeth ar yr holl safleoedd Archeolegol a hanesyddol y gwyddys amdanynt. Disgrifir y ddarpariaeth ar gyfer CAH a'u cynnal a chadw yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Rhan 4, Adrannau 35-37.

8.2 Nid oes gan Gyngor Caerdydd ei arbenigwyr mewnol ei hun i guradu a chynnal a chadw CAH ei hun, ond mae wedi mabwysiadau'r CAH a curadir gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent. Nid yw'r CAH, ac ni fydd byth, yn gofrestr gyflawn, gan fod safleoedd, darganfyddiadau a gwybodaeth Archeolegol newydd yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd, gan amrywio o ran dyddiad o'r Neolithig trwodd i ddinesig, milwrol a diwydiannol modern.

8.3 Mae'n bosibl y bydd data CAH sy'n ymwneud â safleoedd a mannau darganfod yn digwydd mewn clystyrau, er bod hyn yn dibynnu ar gyfnod a math, mae'n bosibl y bydd dros ardal fwy eang ac yn perthyn i ddefnydd y dirwedd a dealltwriaeth gyfredol. Mae'n bosibl y bydd pwynt data yn cyfeirio at ddarganfyddiad neu adeilad unigol, ond hefyd at ardal fwy, er enghraifft, offer fflint wedi'u gwasgaru, caer Rufeinig, man claddu, neu nodwedd unionlin megis ffordd, camlas neu reilffordd.

8.4 Ar hyn o bryd, wedi'u cofnodi o fewn y CAH mae **28** o Henebion Atodol o fewn ardal weinyddol Cyngor Caerdydd ac **857** o Adeiladau Rhestredig a mwy na **1293** o safleoedd Archeolegol, gan gynnwys 298 o ddigwyddiadau, sef gwybodaeth am waith Archeolegol yr ymgymerwyd ag ef eisoes.

8.5 Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysleisio nad yw diffyg cofnod ar y CAH yn golygu nad yw unrhyw ddiddordeb Archeolegol yn bodoli mewn ardal a bydd Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent yn parhau i fonitro ceisiadau cynllunio ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod cynllunio lle y gallai datblygiad arfaethedig gael effaith ar safleoedd Archeolegol heb eu cofnodi. Y ddolen i dudalen CAH ar wefan Ymddiriedolaeth Morgannwg Gwent yw: http://www.ggat.org.uk/her/her.html

## 9 Archaeoleg yn y Broses Gynllunio

### A: Ymgynghoriad cynnar ar y cam cyn cynllunio

9.1 Mae archaeoleg o fewn y system gynllunio yn gofyn am ymgynghoriad cynnar gan yr ymgeisydd/darpar-ddatblygwr i'r awdurdod cynllunio lleol. Mewn ardaloedd a ddynodwyd yn AASau neu lle y caiff deunydd Archeolegol ei amau, argymhellir ymgynghori a thrafod cynnar gyda Chynllunio Archaeoleg Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, a fydd yn gwneud y chwiliad cychwynnol. Yn dibynnu ar ganlyniadau hyn, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol ymgymryd ag asesiad wrth ddesg neu arfarniad maes cyn cyflwyno cais cynllunio (Polisi Cynllunio Cymru, Pennod Chwech, Paragraff 6.5.6,

TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraffau 4.7 a 4.8). Dylid cyflwyno canlyniadau'r rhain fel rhan o unrhyw gais cynllunio. Os na chaiff y wybodaeth hon ei darparu, dylai'r awdurdod ystyried a yw'n briodol cyfeirio'r ymgeisydd i gyflwyno rhagor o wybodaeth ynteu wrthod caniatâd am gynigion sydd heb ddogfennaeth ddigonol. Dylai datblygwyr sylwi y gallai peidio â chyflwyno gwybodaeth am yr adnodd Archeolegol gyda'r cais arwain at oedi sylweddol wrth bennu'r cais.

9.2 Ar y cam hwn bydd modd nodi unrhyw oblygiadau Archeolegol wedyn a gellir ystyried y strategaeth, os oes angen, yn gynnar wrth ystyried y cais cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Paragraff 6.5.5) a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Paragraffau 4.2 a 4.11) yn pwysleisio y dylai bod rhagdybiaeth o blaid gwarchod gweddillion archeolegol yn gorfforol yn y fan a'r lle. Fodd bynnag, os na chaiff hyn ei gyfiawnhau o ystyried amgylchiadau'r achos (PCC, Paragraffau 6.5.7; TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraffau 4.12 i 4.15) dylai'r datblygwr wneud darpariaeth briodol a digonol am ymchwilio a chofnodi'r gweddillion yn Archeolegol, a dylid sicrhau bod y canlyniad ar gael i'r cyhoedd.

9.3 Mae'n bosibl y byddant hefyd yn dymuno cyflwyno manylion am unrhyw fesurau a gafodd eu hymgorffori i gynllun y datblygiad er mwyn gwarchod yr adnodd Archeolegol ac unrhyw strategaethau eraill a fydd ar waith i'w ddiogelu. Bydd hyn yn cynorthwyo er mwyn penderfynu a oes budd archeolegol ac os felly, a oes angen diogelu'r gweddillion yn y fan a'r lle ynteu "drwy gofnod" (h.y. cloddio) cyn y datblygiad.

9.4 Er mwyn sicrhau y caiff effaith y datblygiad ar y gweddillion Archeolegol ei lliniaru'n briodol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn gofyn i'r ymgeisydd gomisiynu archeolegydd sy'n gymwys yn addas i baratoi asesiad Archeolegol o'r safle a/neu ymgymryd ag *arfarniad archeolegol* o'r ardal (gweler y Rhestr Termau i gael rhagor o fanylion). Dylai'r archeolegydd naill ai fod yn Sefydliad Cofrestredig gyda Sefydliad Siartredig Archaeolegwyr (CIfA) neu fod yn aelod lefel Aelod (MCIfA); mae hyn yn sicrhau'r profiad, cymhwysedd ac arbenigedd priodol wrth ymdrin â phrojectau archeolegol cymhleth. http://www.archaeologists.net/regulation/organisations.

9.5 Os oes angen ymgymryd ag *asesiad Archeolegol neu amgylchedd hanesyddol wrth ddesg* (gweler y Rhestr Termau i gael rhagor o fanylion), dylai'r gwaith (cynllun y project a'r adroddiad asesu terfynol) fodloni'r Safonau a'r Arweiniad ar gyfer Asesiadau Archeolegol wrth Ddesg a osodir gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr http://www.archaeologists.net/sites/default/files/CIfAS%26GDBA_3.pdf. Mae'n bosibl y bydd asesiad wrth ddesg yn darparu digon o wybodaeth i atal yr angen am waith maes cyn cyflwyno'r cais cynllunio ac argymhellir yr ymgynghorir â GGAT ar hyn. Os casglwyd digon o wybodaeth, dylid paratoi strategaeth safle briodol i'w chyflwyno.

9.6 Gallai canlyniadau asesiad, neu chwiliad cychwynnol ddangos bod arfarniad sy'n cynnwys torri ffosydd yn ymwthiol neu gloddio ardal agored yn ofynnol (Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 6, Paragraff 6.5.7, a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraff 4.8). Mae hyn yn darparu gwybodaeth am ddyfnder a natur unrhyw weddillion archeolegol os nad oes digon o wybodaeth am yr adnodd archeolegol er mwyn pennu effaith y datblygiad arno.

9.7 Dylid ymgymryd ag arfarniadau maes yn ôl briff a gyflenwyd gan Gynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent; ni ddylid ymgymryd â'r arfarniad hyd nes y cymeradwyir manyleb fanwl wedi'i pharatoi gan y contractwr archeolegol sy'n ymgymryd â'r gwaith gan Gynllunio Archeolegol Morgannwg Gwent. Mae'r briff yn amlinellu'r gwaith sy'n ofynnol, ac mae'r fanyleb yn rhoi manylion am sut caiff y gwaith sy'n ofynnol ei gyflawni.

9.8 Caiff yr holl waith maes ac adroddiadau ar y gwaith eu monitro gan Gynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent http://www.ggat.org.uk/archplan/monitoring.html. **Dylid sylwi ei bod yn bosibl y caiff gwaith nad ymgymerwyd ag ef yn unol â chynllun project cymeradwy ac sydd heb ei fonitro ei wrthod.**

9.9 Mae elfennau arolygon maes a chofnodi eraill yr ymgymerir â nhw fel arfer fel rhan o’r broses gyn-cynllunio er mwyn arwain naill ai gwaith Archeolegol ymwthiol pellach neu i gyflawni cofnodi nodweddion yn cynnwys asesu gwrthgloddiau neu gofrestru hyd a natur darganfyddiadau gwasgaredig), ac arolwg geoffisegol, a all ganiatáu torri ffosydd ymwthiol i gael ei dargedu ar nodweddion posibl, ond mae’n bwysig nodi bod canlyniadau yn amrywio gyda daeareg wahanol.

9.10 Pan fo’r gwaith maes wedi’i wneud, bydd rhaid i'r canlyniadau gael eu dadansoddi gan y contractwr Archeolegol a bydd rhaid llunio adroddiad ar y gwaith. Dylai’r wybodaeth sydd yn yr adroddiad fod yn ddigonol er mwyn pennu pwysigrwydd a natur yr adnodd archeolegol a'i hyd, ac er mwyn llunio strategaeth liniaru briodol. Caiff hyn ei atodi at gydsyniad fel amod ond hefyd mae'n bosibl y bydd gofyn am waith maes cyn-pennu pellach.

9.11 Mae *Rheoliad 4 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau)* 1988 (SI 1812) yn caniatáu i'r Cyngor ofyn i fanylion angenrheidiol gael eu cyflwyno er mwyn galluogi cais cynllunio i gael ei bennu. Os na chyflwynir y wybodaeth angenrheidiol, mae’n bosib y gwrthodir caniatâd. Byddai hyn yn cynnwys peidio â rhoi gwybodaeth archeolegol ddigonol. Pe bai hyn yn wir, mae’n bosibl y byddai Cynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent yn argymell gwrthod neu ohirio penderfyniad, mae hwn yn ddull a gynhelir gan yr Arolygiaeth Gynllunio mewn apeliadau yn erbyn peidio â phennu.

## B: Caniatâd cynllunio ac amodau atodol

9.12 Un o’r materion sylweddol y bydd yr Awdurdod yn eu hystyried wrth bennu’r cais yw effaith y datblygiad arfaethedig ar yr adnodd archeolegol ac a oes modd diogelu’r adnodd Archeolegol y fan ar y safle a’i amddiffyn yn y datblygiad. Os dyfernir bod angen y datblygiad yn gorbwyso'r angen i warchod yr adnodd archeolegol, caiff cydsyniad ei roi ond bydd yn ddarostyngedig i nifer o amodau sy'n sicrhau y caiff yr adnodd archeolegol ei amddiffyn neu ei ymchwilio'n briodol.

9.13 Fel y dywed Paragraff 6.5.7 a 6.5.8 Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol Paragraff 4.12, pan yw awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu na ellir cyfiawnhau gwarchod ffisegol yn y fan a'r lle, ac y dylai'r datblygiad fynd yn ei flaen, er mwyn sicrhau'r ymchwiliad a'r cofnod Archeolegol priodol, mae'n bosibl y caiff amodau negyddol eu gorfodi er mwyn gwahardd y datblygiad rhag mynd yn ei flaen, nes y gellir ymgymryd â'r gwaith a gweithredoedd eraill, gan gynnwys trefnu a dyddodi'r archif i ystorfa gymeradwy.

9.14 Mae TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, wedi cymryd lle dau gylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 a 61/96, ac nid yw'n cynnwys amodau,

9.15 Cynhwysir amodau sy'n berthnasol i archaeoleg yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 16/2014: Defnydd Amodau Cynllunio i Reoli Datblygiadau, wedi'u disgrifio ym Mharagraffau 5.46. 5.47 a 5.48, a'u

hatodi fel Adrannau 22,23 a 24.

Mae **Adran 24** yn amod negyddol:

> *Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd hyd nes bod yr ymgeisydd, neu ei asiantau neu ei olynyddion, wedi sicrhau cytundeb ar gyfer cynllun ysgrifenedig i liniaru effaith ar yr amgylchedd hanesyddol wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd a'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol. Ar ôl hynny, caiff y rhaglen waith ei chyflawni'n llawn yn unol â gofynion a safonau'r cynllun ysgrifenedig.*

**Adran 22** yw'r amod ar gyfer briff gwylio archeolegol:

> *Ni fydd unrhyw ddatblygiad neu gliriad safle yn dechrau hyd nes bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi cael gwybod yn ysgrifenedig am enw archeolegydd proffesiynol cymwys sydd i fod yn bresennol yn ystod unrhyw gloddio yn yr ardaloedd datblygu fel y gellir cynnal gorchwyl gwylio. Ni fydd unrhyw waith yn dechrau hyd nes i'r awdurdod cynllunio lleol gadarnhau yn ysgrifenedig bod yr archeolegydd arfaethedig yn addas. Caiff copi o adroddiad y gorchwyl gwylio ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn dau fis wedi cwblhau'r gwaith maes gan yr archeolegydd.* ***Cyn gweithredu unrhyw ganiatâd cynllunio, mae'n rhaid i'r datblygwr brofi bod darpariaeth addas wedi'i gwneud ar gyfer ymchwilio'r safle yn archeolegol, cofnodi gweddillion archeolegol a chyhoeddi darganfyddiadau'r gwaith archeolegol yn ôl yr angen.***

9.16 Mae'n bosibl y bydd yr amod archeolegol hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwahanol fathau o gynllun ysgrifenedig a allai gynnwys, er enghraifft, cofnod adeiladau, neu o orchwyl gwylio i gloddfa lawn. O dan amgylchiadau arferol, bydd Cynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent yn amlinellu'r rhaglen waith y maent yn rhagweld a ddilynir yn eu llythyr yn argymell bod yr amod yn cael ei atodi i'r caniatâd cynllunio. Yn gyffredinol, dylai'r ymgeisydd benodi archeolegydd i ymchwilio eu cynlluniau datblygu arfaethedig a dyfeisio cynllun ysgrifenedig addas. Ni fydd Cynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwent yn paratoi hyn ond maent yn fodlon trafod ei gynnwys gyda'r archeolegydd a benodwyd er mwyn sicrhau bod cynllun addas yn cael ei lunio a'i gynnig. {Yn achlysurol, gallai rhaglen gynnwys trefniadau cyfwng, rhag ofn y caiff archaeoleg gymhleth, neu, er enghraifft, gweddillion dynol, ei darganfod.

9.17 Yn achlysurol, sicrheir gweithredu'r gwaith archeolegol trwy gytundeb cyfreithiol. Fel arfer, caiff yr ymchwiliad Archeolegol ei gynnal er mwyn bodloni amod; ond mewn achosion priodol, gellir mynd i mewn i Gytundeb Adran 106 (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990, Adran 106) er mwyn ffurfioli unrhyw gytundebau gwirfoddol, a thrwy hyn yn sicrhau eu bod yn gyfreithiol-rwym, a wneir rhwng yr ymgeisydd a'r Awdurdod. Mae'r cytundebau hyn yn rheoliad datblygiad a gallant o bosibl gynnwys darpariaeth o ran cyllid; modd o ymchwilio, e.e. cloddfeydd; ac wedyn cofnodi'r safle dan sylw wedyn a chyhoeddi'r canlyniadau.

9.18 Dylid dyddodi'r wybodaeth archeolegol a ddaw o ganlyniad gyda'r CAH priodol at ddefnydd y cyhoedd, sydd yn unol â TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, paragraff 4.12, sy'n gofyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi pan gaiff gweddillion archeolegol eu gwarchod gan gofnod. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n rhaid i bob trafodaeth â'r datblygwr/ymgeisydd gynnwys cytundeb i roi copïau gyda'r CAH.

### C: Rhyddhau amodau cynllunio

9.19 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn gofyn am gyflwyno manylion yn ffurfiol i'r Awdurdod Lleol. Mae cyfraith achos diweddar (Henry Boot Homes v. Bassetlaw DC, 2002) wedi dyfarnu, yn rhan fwyaf yr achosion, nad yw datblygu sy'n dechrau cyn cyflawni amodau cynllunio perthnasol, yn gyfreithlon. Mae unrhyw ddatblygiad a wneir wrth dorri amod **yn torri rheolaeth cynllunio.** Yn hynny o beth, bydd unrhyw ymholiad a dderbynnir o ganlyniad i chwiliad lleol yn dangos bod y datblygiad heb awdurdod.

#### Rhyddhau amodau cynllunio yn rhannol

9.20 Bodlonir amod sy'n gofyn am ymgymryd â gorchwyl gwylio yn rhannol pan fydd yr ymgeisydd yn rhoi gwybod i'r Cyngor am enw ei archeolegydd sy'n gymwys yn addas a benodwyd ganddo. Caiff ei gyflawni'n llawn pan fo'r gorchwyl gwylio wedi'i gynnal a phan fo adroddiad ar y gwaith wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo.

9.21 Mae cyflawni amod sy'n gofyn am raglen archeolegol o ymchwilio yn fwy cymhleth. Ar y dechrau, mae angen cyflwyno i'r Cyngor rhaglen o waith archeolegol a ddylunnir gan archeolegydd yr ymgeisydd . Pan fo hyn wedi'i gymeradwyo bydd angen ymgymryd â'r gwaith ar y safle a amlinellir yn y ddogfen. Wrth gwblhau'r gwaith hwn, gellir naill ai llunio adroddiad terfynol neu, yn achos cloddfeydd, caiff asesiad ar ôl y gloddfa ei lunio.
Yn yr ail achos, bydd angen ymgymryd â'r gwaith a amlinellir yn yr asesiad ac wedyn llunio'r adroddiad terfynol. Gall y broses gymryd cryn dipyn o amser ac argymhellir y dylai'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth ar ddiwedd pob un o'r camau uchod i'r Cyngor (a thrwyddynt Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent) er mwyn i hysbysiad cyflawni amod yn rhannol gael ei ddosbarthu. Dim ond wedi cyflwyno adroddiad terfynol ac wedi cytuno ar gyfrwng addas ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau mewn cyfrwng addas, os ystyrir bod angen gwneud hynny, y bydd yn bosibl rhyddhau'r amod yn llawn (TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraff 4.14).

### D: Torri amodau cynllunio; gorfodi

**9.22 Dylid mynd i'r afael â rhyddhau'r amodau yn gynnar yn y broses datblygu a gall canlyniadau difrifol, gan gynnwys gorfodi ffurfiol gan y Cyngor, fod yn ganlyniad i ymgymryd â gwaith trwy dorri amod.**

9.23 Mae gan y Cyngor bwerau o dan Adran 187A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gyflwyno Hysbyseb Torri Amod, yn gofyn i gamau gael eu cymryd i wneud yn iawn am y dor rheolaeth gynllunio. Mae methu cydymffurfio â gofynion Hysbysiad Torri Amod yn drosedd, y gall achos erlyn gael ei gymryd yn ei erbyn yn Llys yr Ynadon.

9.24 Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru a'r ddogfennaeth oddi mewn *Cyfres Cynllunio 7: Gorfodi a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 24/97: Gorfodi Rheolaeth Gynllunio: Darpariaethau Deddfwriaethol a Gofynion Gweithdrefnol.*

9.25 Y gosb uchaf am dorri hysbysiad gorfodi yw £20,000 ac ar hyn o bryd am dorri amod, dirwy o £1,000, neu wrth euogfarnu ar dditio, dirwy ddiderfyn. Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Rhan 2 hefyd yn cynnwys manylion gweithred gorfodi y gellir ei chymryd, hysbysiadau atal a phwerau mynediad.

**E: Deunydd archeolegol y deuir o hyd iddo wedi cychwyn y datblygiad**

9.26 Mae'n ddigwyddiad prin y daw gweddillion archeolegol i'r amlwg wedi cychwyn datblygiad yn unig. Os yw hyn yn digwydd, mae'r cyngor ar bolisïau ar warchod deunydd archeolegol yn y fan a'r lle (Polisi Cynllunio Cymru, Paragraff 6.5.5 a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraffau 5.32 a 5.33) ac yn hynny o beth bydd yr Awdurdod yn ceisio'r canlyniad hwn. Felly, os caiff gweddillion archeolegol annisgwyl heb eu cofnodi o'r blaen eu darganfod mewn ardal cais wedi dechrau'r gwaith datblygu, effaith y datblygiad arno fydd ystyriaeth sylweddol yn y broses gynllunio.

9.27 Nid yw gwarchod deunydd yn y fan a'r lle o reidrwydd yn atal datblygu oherwydd gallai dyddodion o'r fath gael eu selio neu eu hymgorffori i gynllun strwythur, fel strategaeth lliniaru. Os nad yw datblygwr yn cynnwys gweddillion pwysig yn eu cynlluniau, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried gwrthod y cynnig, ond byddai hyn yn dibynnu ar rinweddau'r achos, gan gymryd i ystyriaeth bwysigrwydd y gweddillion ac ystyriaethau sylweddol eraill. O dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd hyn yn golygu y bydd y datblygiad arfaethedig yn amhriodol ar safle a gwrthodir caniatâd.

## 10 Safleoedd a Amddiffynnir yn Statudol

10.1 Mae gwarchod safleoedd a amddiffynnir yn statudol, sy'n cynnwys henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig, parciau, gerddi a thirweddau, yn ofynnol trwy ddeddfwriaeth a'r fframwaith polisi cynllunio.

10.2 Yng Nghymru, rhoddir amddiffyniad statudol i'r rhain o dan ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Rhan 2 a Rhan 3, yn ogystal â safleoedd Archeolegol sy'n genedlaethol bwysig a roddir ar hyn o bryd fel henebion cofrestredig o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979.

10.3 Diffinnir heneb gofrestredig yn Adran 61(7) Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 fel:

a) *unrhyw adeilad, strwythur neu waith, boed uwch neu o dan arwyneb y tir, ac unrhyw ogof neu gloddfa;*
b) *unrhyw safle sy'n cynnwys gweddillion unrhyw adeilad strwythur neu waith o'r fath neu o unrhyw ogof neu gloddfa; ac*
c) *unrhyw safle sy'n cynnwys, neu'n cynnwys gweddill, unrhyw gerbyd, llong, awyrennau neu strwythur symudol arall neu ran ohono nad yw'n cynnwys neu'n ffurfio rhan o unrhyw waith sy'n heneb o fewn paragraff (a) uchod;*
d) *caiff unrhyw beirianwaith sydd wedi'i atodi i heneb ei ystyried yn rhan o'r heneb os na ellid ei ddatgysylltu heb ei ddatgymalu.*

10.4 Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Rhan 2; Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6, Paragraff 6.5.5 a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Paragraff 4.2 a 4.9 yn dweud bod heneb a'i lleoliad, ni waith a yw'n gofrestredig neu beidio, yn ystyriaeth sylweddol o ran pennu cais am ganiatâd cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu sy'n effeithio ar henebion cofrestredig , neu ar weddillion a amddiffynnir yn statudol neu sy'n genedlaethol bwysig dylai fod rhagdybiaeth o blaid eu gwarchod yn gorfforol.

10.5 Os ystyrir gwaith i safle cofrestredig neu waith sy'n effeithio lleoliad heneb, mae'n rhaid ymgynghori â Cadw. Mae gwaith sy'n effeithio'n uniongyrchol ar safleoedd cofrestredig yn gofyn am gydsyniad ar gyfer henebion cofrestredig, a chydsyniad blaenorol Gweinidogion Cymru, yn ogystal ag unrhyw ganiatâd

cynllunio sy’n ofynnol am ddatblygu; mae’n rhaid gwneud cais am gydsyniad i'r Gweinidogion trwy Cadw.

10.6 Hefyd mae deg cydsyniad dosbarth sy'n caniatáu mathau penodedig o waith mewn safleoedd cofrestredig; mae'r rhain wedi'i rhestru yng Nghyhoeddiad Cadw *Cydsyniad Cofeb Restredig* (http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Scheduled_Monument_Consent_EN.pdf ) a TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, Atodiad A.8.

## 11 Ardaloedd Archeolegol Sensitif

**Diffinio Ardaloedd Archeolegol Sensitif**

11.1 Mae dynodiad Ardaloedd Archeolegol Sensitif (AAS) yn amlygu arwyddocâd yr ardaloedd hyn, yr angen i ddatblygwyr posibl geisio cyngor archeolegol proffesiynol er mwyn sicrhau arwyddocâd sylweddol safle, effaith bosibl y datblygiad ar yr adnodd archeolegol a sut gellid lliniaru'r effaith honno, o bosibl.

**Nid yr AAS yw’r unig ardaloedd o fewn ffiniau awdurdod lleol lle y bydd archaeoleg yn ffactor wrth bennu ceisiadau cynllunio, ond maent yn dangos yr ardaloedd mwyaf tebygol lle y gallai hyn ddigwydd.**

11.2 Ni fwriedir i ddynodiad AAS gyflwyno polisïau neu gyfyngiadau newydd i'r datblygiad ond i ddangos i ddatblygwyr yr ardaloedd lle mae’n fwy tebygol y gallai effaith y datblygiad ar yr adnodd Archeolegol fynd yn broblem cyn neu yn ystod pennu cais cynllunio. Mae adnabod yn galluogi’r datblygwr, yr ACLl a’i ymgynghorwyr, i nodi lle y mae'n bosibl y bydd gofyn am wybodaeth ychwanegol cyn cyflwyno cais cynllunio, neu y mae gofyn ei chyflwyno gyda chais cynllunio, er mwyn cadarnhau pwysigrwydd yr adnodd archeolegol ac effaith y datblygiad arfaethedig.

11.3 **11.3 Nid yw gweddillion archeolegol yn gyfyngedig i’r AAS; mae’r ffiniau yn dangos craidd neu glwstwr o bwyntiau data ac ni ddylid cymryd nad yw ardaloedd y tu allan i AAS ddynodedig yn cynnwys safleoedd archeolegol a hanesyddol bwysig a gallai'r rhain fod yn ffactor wrth bennu unrhyw gais cynllunio.** Argymhellir yn gryf yr ymgynghorir â’r ymgynghorwyr i'r awdurdod cynllunio lleol, sef Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, yn gynnar ym mhroses gynllunio unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn ardal Cyngor Caerdydd er mwyn gwirio a oes unrhyw safle archeolegol neu a amheuir bod ardal archeolegol yn yr ardal datblygu, a gwirio a oes angen lliniaru cyn pennu neu ar ôl pennu.

11.4 Cafodd yr AAS eu dynodi ar ôl gwerthusiad gan yr ymgynghorwyr archeolegol i’r awdurdod cynllunio lleol, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent, er mwyn diffinio’r ardaloedd y bydd archaeoleg o bosibl yn mynd yn gydran wrth bennu ceisiadau cynllunio a rhoi arwyddion cynnar o ffactorau o'r fath i ddatblygwyr posibl.

11.5 Mae Data craidd yn cyfeirio at nifer y safleoedd a’r darganfyddiadau ar Gofnod yr Amgylchedd Hanesyddol o amrywiaeth o ffynonellau; mae data ar ddigwyddiadau yn perthyn i ymyriad archeolegol a gofnodwyd, er enghraifft, gwaith nad yw’r ymwthiol megis asesiadau asedau Archeolegol neu dreftadaeth, gwerthusiadau, recordiadau adeiladau ac arolygon geoffisegol, a gwaith ymwthiol megis cloddfeydd, arfarniadau maes, a monitro gwaith datblygu, pyllau prawf a samplo ymwthiol. Mae pwyntiau data yn cofrestru’r wybodaeth o fewn Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol ac yn dangos bodolaeth gweddillion ond nid o reidrwydd eu hyd ffisegol. Caiff ardaloedd mwy o faint sy'n ffurfio

tirweddau a gynllunnir megis Parciau a Gerddi Cofrestredig; neu Dirweddau Cofrestredig a'u hardaloedd o gymeriad sy'n rhan ohonynt, eu darlunio gan bolygonau, fel sy'n wir am henebion cofrestredig.

11.6 Gwnaed mân newidiadau i'r ffiniau i bob un o'r pedair Ardal Archeolegol Sensitif; mae'r rhain yn bennaf oherwydd diweddariadau i'r mapiau sylfaen ddigidol, ond hefyd cawsant eu gwneud gyda'r gallu i weld mapio hanesyddol fel haenen ddigidol. Bellach mae’r AAS yn fwy cydlynol o ganlyniad.

## AAS 1: Canol y Ddinas

***Cymuned:*** Castell

***Prif ddynodiadau***

Henebion cofrestredig: GM171 Castell Caerdydd a Chaer Rufeinig; GM 173 Tŷ'r Brodyr Dominicaidd

Adeiladau Rhestredig: 119, gan gynnwys tri Gradd I ac wyth Gradd II*
Ardaloedd cadwraeth Parc Cathays, Heol-Y-Frenhines, Heol yr Eglwys Fawr, Ffordd Churchill, Heol Charles.

***Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig***

Gradd I: Castell Caerdydd a Pharc Bute:
Gradd II: Parc Cathays:

***Cofrestrau Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol***

Cofnodion Craidd: 431
Cofnodion Digwyddiadau: 67

***Arwyddocâd***

Cyfres bwysig o gaerau ac anheddiad Rhufeinig, o'r canrifoedd 1$^{af}$ i'r 3$^{edd}$; tref ganoloesol wedi'i chynllunio, wedi'i sefydlu yn y 11$^{eg}$ ganrif; ehangwyd a derbyniodd siarterau o'r 12$^{fed}$ ganrif ymlaen. Roedd yr anheddiad graidd o gwmpas y castell o'r 11eg ganrif ac eglwysi Sant Ioan a'r Santes Fair; mynachdai'r Brodyr Duon a'r Brodyr Llwydion. Ehangiad mawr o'r 19$^{eg}$ ganrif o ganlyniad i ddiwydiant; dociau, rheilffordd, camlesi a nodweddion cymdeithasol cysylltiedig. Parciau a gerddi wedi'u cynllunio o ddechrau'r 20$^{fed}$ ganrif ac adeiladau dinesig.

***Rhesymau dros Gynnydd mewn Potensial Archeolegol***

Yn ystod ail hanner y ganrif 1$^{af}$ OC, adeiladwyd y Gaer Rufeinig gyntaf o bren a phridd, ber fu ei hoes a chafodd ei disodli gan gaer ategol ar ddiwedd y ganrif gyntaf, hefyd o bridd a phren, i ogledd y gaer gyntaf. Meddiannwyd trydedd gaer, wedi'i hadeiladu ar aliniad gwahanol yn ystod y drydedd ganrif a phedwaredd gaer, a adeiladwyd yn ddiweddarach yn y 3$^{edd}$ ganrif tan yn ddiweddarach yn y 4$^{edd}$ ganrif. Ar ôl cloddio Archeolegol rhai ardaloedd, nodwyd tystiolaeth o ffyrdd, waliau amddiffynnol, porthdai a ffosydd, adeiladau, gwaith metel, baddondai ac aneddiadau i ogledd a de y caerau a fyddai hefyd wedi cynnwys mynwentydd. Ni wyddys union raddfa'r feddiannaeth Rufeinig, er bod rhaid sylwi bod y dopograffeg isel wedi dangos bod gweddillion archeolegol, yn benodol darganfyddiadau neu darddiad organig, wedi'u cadw'n dda.

Yn ystod yr 11$^{eg}$ ganrif, ar ôl y goresgyniad Normanaidd, setlodd pobl yn gyflym yn ardal de Cymru a'r iseldiroedd arfordirol ffrwythlon. Sefydlwyd y castell yng Nghaerdydd yn tua 1081 OC; dilynodd waliau'r beili linellau amddiffynnol y gaer Rufeinig ddiwethaf. Y mwnt a godwyd yng nghornel gogledd-orllewin beili'r castell oedd yr


un mwyaf yng Nghymru ac roedd dyfrffos o'i amgylchAmddiffynnwyd yr anheddiad o amgylch y castell gan balisâd ac, yn ddiweddarach, gan waliau ac amddiffynnwyd yr ochr orllewinol gan afon Taf, a lifai tua'r dwyrain o'i thrywydd presennol tan y 19eg ganrif.

Cafodd y castell, y mwnt, y gorthwr a'r beili eu datblygu wrth i gyfres o adeiladau, waliau, pyllau, palisadau a phontydd gael eu hadeiladu a'u hadnewyddu rhwng yr 11eg ganrif a'r 15fed ganrif. Dangosir trywydd amddiffynfeydd y dref ar fapiau Arolwg Ordnans y 19eg ganrif, a bydd yr adnodd Archeolegol, yn enwedig o'r cyfnod hwn, yn fwy dwys o fewn yr ardal hon. Gwyddys am Eglwys Sant Ioan erbyn 1173 OC a setlwyd yn yr ardal yn ddwysach yn y 13eg ganrif. Roedd Eglwys y Santes Fair wedi'i lleoli'n agos i borth deheuol y dref, ar ochr ddwyreiniol yr afon. Wedi'i hadnabod yn 1107 OC, fe'i hymadawyd yn yr 17eg ganrif.

Roedd mynachdy'r Brodyr Duon, (Dominiciaid) y tu allan i amddiffynfeydd y dref i ogledd y castell, yn y Parc Bute Presennol. Credir bod y mynachdy wedi cael ei sefydlu gan Richard de Clare yn 1256 OC, ac mae gwaith atgyfnerthu ar weddillion y Priordy Domenicaidd yn dangos dyddiad ar ddechrau'r 14eg ganrif. Roedd y priordy'n cynnwys eglwys, cloestr, celloedd i'r mynachod a chyfresi o adeiladau. Tua'r dwyrain o'r castell, y tu allan i furiau'r dref, roedd mynachdy'r Brodyr Llwydion a sefydlwyd ym 1289 gan Gilbert de Clare; byddai hyn hefyd wedi cynnwys eglwys, celloedd, cloestr a chyfresi o adeiladau.

Yn ystod y cyfnod ar ôl yr oesoedd canol (16eg i'r 19eg ganrif) ehangodd y dref ei hun y tu hwnt i Borth y Dwyrain, ar hyd llinell Heol-y-Frenhines, fel maestref o'r enw Crockherbtown. Mae tarddiad hwn yn y cyfnod canoloesol ac mae'n bosibl ei fod yn perthyn i'r mynachod yn tyfu perlysiau i'w gwerthu wrth borth y dref. Creodd datblygiadau diwydiannol modern a rhai'r 19eg ganrif ehangiad sylweddol y dref; mae'r cyfnod pwysig hwn yn berthnasol iawn yn gymdeithasol-ddiwylliannol fel ffactor pennaf o ran statws de Cymru fel arweinydd y byd mewn mwynau a meteleg.

Wrth i'r ardal hon gael ei datblygu a'i hadeiladu, mae'n bosibl y collwyd neu y difrodwyd haenau arwynebol o ddeunydd Archeolegol, ond mae gweddillion a gladdwyd yn ddwfn yn bodoli a daethpwyd ar eu traws gan waith galluogi ac adeiladu trwm. Oherwydd y datblygodd y broses o ailddatblygu dros ganrifoedd, y canlyniad yw bod llawer o weddillion haenedig yn yr ardal, lle mae tystiolaeth o adeiladau, seilwaith blaenorol a darganfyddiadau. Newidiodd cwrs Afon Taf, a symudwyd hi i'r gorllewin a'i gwneud yn gamlas mewn mannau yn y 19eg ganrif dopograffeg a oedd yn golygu bod rhai rhannau o'r ardal wedi eu heffeithio gan lifwaddod. Mae'r gweddillion yn sensitif i bwysau datblygu, ac mae'n rhaid nodi bod ffin yr ardal hon yn dangos dwysedd gweithgarwch Archeolegol, nid hyd y gweithgarwch hanesyddol, a bod gweddillion archeolegol yn bodoli y tu allan i'r ffiniau.




Ffigwr 1: Ardal Archeolegol Sensitif Canol Dinas Caerdydd

## AAS 2: Llandaf

***Cymuned:*** Llandaf

***Prif ddynodiadau***

Henebion cofrestredig: GM115 Croes yn Eglwys Gadeiriol Llandaf; GM073 Hen Lys yr Esgobion; Clochdy Eglwys Gadeiriol Llandaf

Adeiladau Rhestredig: 57, gan gynnwys dau Gradd I a dau Gradd II*
Ardaloedd cadwraeth Llandaf

***Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig***

Gradd II*: Caeau Pontcanna a Chaeau Llandaf GM59

**Cofrestrau Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol**

Cofnodion Craidd: 153
Cofnodion Digwyddiadau: 15

**Arwyddocâd**
Sefydliad crefyddol Cristnogol yr Oesoedd Canol Cynnar pwysig, Eglwys Gadeiriol Ganoloesol, ac adeiladau crefyddol a seciwlar ôl-ganoloesol, anheddiad o’i gwmpas. Wedi’i leoli ar bwynt croesi isaf Afon Taf, ar darddiad rhwng afonydd Taf ac Elái, sy'n safle posibl ar gyfer gweithgarwch dros nifer o gyfnodau.

***Rhesymau dros Gynnydd mewn Potensial Archeolegol***

Mae’r gweithgarwch cynharach y gwyddys amdano yn ardal Llandaf yn perthyn i drac sy'n debygol o fod yn gyn-hanesyddol, a ailddefnyddiwyd gan y Rhufeiniaid, llwybr a ganiataodd mynediad ar draws de Cymru trwy bwynt croesi isaf afon Taf, ychydig islaw'r eglwys gadeiriol bresennol, uwchlaw ardal o gors isel.

Cofnodir gweithgarwch mwy parhaol o gyfnod y Rhufeiniaid, ac mae'n debygol bod gweddillion o aneddiadau a chladdedigaethau yno. Datgelwyd claddedigaethau Rhufeinig-Brydeinig o dan ran orllewinol yr eglwys gadeiriol, a daethpwyd o hyd i ddarganfyddiadau unigol o ddeunyddiau adeiladu, crochenwaith a darnau arian o'r ardal o gwmpas yr eglwys gadeiriol ac ymhellach tua'r de-ddwyrain. Gyda thystiolaeth dros ffordd Rufeinig o’r gogledd tua’r de yn croesi’r llwybr o’r dwyrain tua’r gorllewin yn Llandaf, mae hyn hefyd yn awgrymu y gallai bod presenoldeb mwy parhaol o bosibl, ond mae’n annhebygol y byddai wedi bod yn amgaeedig neu â strwythur ffurfiol.

Mae meddiannaeth sylweddol o’r Oesoedd Canol Cynnar yn dyddio o’r 6$^{ed}$ ganrif OC, pan sefydlwyd y *clas,* sef mynachdy crefyddol Cristnogol, gan Sant Teilo.  Byddai hyn wedi cynnwys eglwys, llety i offeiriad a mynachod, yn ogystal ag adeiladau clwystrol eraill, a oedd yn debygol o fod wedi’u cau i mewn, er na wyddys i ba raddau.

Roedd y rhain yn fwy tebygol o fod wedi'u hadeiladu o bren ac mae'n bosibl bod y gweddillion yn ddarfodedig, heb fod yn amlwg ar unwaith. Mae croes garreg sy'n dyddio o'r 10fed ganrif y tu mewn i'r eglwys gadeiriol. Mae aneddiadau crefyddol ehangach yn debygol fel bod tystiolaeth enwau lleoedd yn awgrymu; mae Radur (*Yr Adur,* neu'r siantri) a Mynachdy lai na milltir o'r eglwys gadeiriol; roedd yn beth arferol bod capeli a thai crefyddol bach ar y ffordd i gyrchfannau pererindodau crefyddol pwysig. Bu i'r Normaniaid gydnabod pwysigrwydd yr anheddiad gan godi'r eglwys gadeiriol yn Llandaf, yn hytrach nag yng Nghaerdydd.


Roedd gweithgarwch hanesyddol ar ôl y goresgyniad Normanaidd yn fwy helaeth, ac roedd eglwys gadeiriol newydd a adeiladwyd o garreg yn yr oesoedd canol a llys esgobion o fewn muriau mewn caeadle muriog yn ffurfio canol Esgobaeth ac Arglwyddiaeth newydd. Roedd yr ardal yn ganolfan pererindodau, a byddai wedi bod angen lletya pererinion, a gwasanaethu anghenion economaidd cysylltiedig. Mae cofnodion trethu'r 13eg ganrif yn dangos maenordy, tiroedd aredig, pysgodfeydd, melinau a thenantiaid rhydd a bilain. Cafodd yr eglwys gadeiriol ei hail-adeiladu a'i hymestyn dros y ddwy ganrif nesaf; a chyda chastell yr archddiaconiaid tua'r gogledd o'r eglwys gadeiriol a dwy felin ddŵr yn yr ardal gerllaw, roedd yr anheddiad yn llewyrchus ac yn ddigon pwysig i luoedd Cymru ymosod arni yn ystod dechrau'r 15fed ganrif.

Gellir priodoli rhagor o gynnydd o ran poblogaeth i farchnad wythnosol a ffeiriau blynyddol yn cael eu cynnal ym mwrdeistref Llandaf yn ystod diwedd y cyfnod canoloesol.

Ar ôl diddymu'r mynachdai, y diwygiad a newidiadau gwleidyddol yn y 16eg ganrif, cafodd y teulu Mathew Faenor Llandaf. Aeth eglwys gadeiriol Llandaf a llawer o'r adeiladau yn adfail a chollodd yr ardal ei llewyrch. Mae mapiau o ddechrau'r 17eg ganrif yn dangos anheddiad o tua thrigain o dai, gyda gerddi, wedi'u lledaenu'n rheolaidd o gwmpas y maes. Yng nghanol y 17eg ganrif, defnyddiodd lluoedd y Seneddwyr yn ystod y Rhyfel Cartref yr eglwys gadeiriol fel stablau a llety a dinistriwyd yr ardal yn gyfan gwbl.

Ar ôl i dŵr yr eglwys gadeiriol yng nghanol y 18fed ganrif, a rhaglen ailadeiladu mawr, tyfodd yr ardal o ran llewyrch o tua diwedd y 18fed ganrif, ac yn enwedig yn ystod y 19eg ganrif. Adeiladwyd tai mawr megis Llys Insole (Llys Treláí o'r blaen), Llys Llandaf, Tŷ Baynton ac (Ysbyty) Rookwood gan berchnogion pyllau glo yn lleol ac aeth Llandaf yn ardal ffasiynol i fyw ynddi. Adlewyrchir hyn yn nifer yr adeiladau rhestredig o'r dyddiad hwn.

Mae'r adnodd archeolegol yn perthyn i ddwysedd y gweithgarwch o'r 6ed ganrif OC ymlaen, a fu'n barhaus felly am 1500 o flynyddoedd. Er bod y rhan fwyaf yn debygol o fod o gwmpas yr eglwys gadeiriol ac ardal tiroedd yr eglwys gadeiriol, sydd ynddo ei hun yn annhebygol o wynebu nifer o fygythiadau datblygu mawr sylweddol, byddai'r anheddiad wedi cynnwys ardal ehangach fel y dangosir ar fapiau'r 17eg ganrif. Mae'n bosibl bod gweddillion hyn wedi'u difrodi neu eu dinistrio erbyn datblygu ar ddiwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif gan y byddai hynny wedi bod yn fwy dwys, fodd bynnag, mae gwaith archeolegol yn ystod y datblygiadau a chyn hynny wedi dangos bod tystiolaeth yn goroesi. Ni waeth pa mor bitw yw, mae'r fath dystiolaeth yn helpu i adeiladu dealltwriaeth o'r hanes. Byddai datblygiadau'n effeithio ar yr adnodd archeolegol dan y ddaear, a hefyd ar leoliad adeiladau rhestredig ac mae'n rhaid cymryd henebion cofrestredig i ystyriaeth.




Ffigwr 2: Ardal Archeolegol Sensitif Llandaf

## AAS 3: Sain Ffagan a Llanfihangel-ar-Elái

***Cymuned:*** Sain Ffagan; Treléi

***Prif ddynodiadau***

Henebion cofrestredig: **Dim.**
Adeiladau Rhestredig: 96, gan gynnwys 1 Gradd I a thri Gradd II*
Ardaloedd cadwraeth: Sain Ffagan

***Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig***

Gradd I: Castell Sain Ffagan GM31

***Cofrestrau Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol***

Cofnodion Craidd: 177
Cofnodion Digwyddiadau: 29

***Arwyddocâd***

Dau bentref canoloesol ag ychydig yn llai na chilomedr rhyngddynt; gogledd Sain Ffagan a'r castell yn ganolbwynt, y parc a'r ystâd, a'r eglwys; safle Brwydr y Rhyfel Cartref; Llanfihangel-ar-Elái, oedd yn bennaf yn anheddiad ddiffaith, lai ar ôl y 17eg ganrif. Mae'n cynnwys Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, lle mae mwy na deugain o adeiladau hanesyddol.

***Rhesymau dros Gynnydd mewn Potensial Archeolegol***

**Sain Ffagan:**

Cafodd caeadle a chastell siâp D eu sefydlu yn wreiddiol ar y tir uchel yn edrych dros afon Elái yn ystod diwedd yr 11eg neu ddechrau'r 12fed ganrif gan y teulu le Sore; roedd Sain Ffagan yn Ffi Marchog o fewn Arglwyddiaeth Morgannwg. Awgrymir bod y castell cylch cynnar o bridd a phren wedi'i droi'n un o garreg, o bosibl yn y 13eg ganrif. Cofnodir bod yr eglwys wreiddiol Sain Ffagan tua'r gogledd o'r castell ac mewn adfeilion yn yr 16eg ganrif; cafodd ei datgloddio ar ddiwedd y 19eg ganrif. {Cafodd llawer o ddeunyddiau adeiladu a darganfyddiadau yn dyddio yn bennaf i'r 13eg ganrif eu hadfer. Mae castell 11eg ganrif y Santes Fair tua'r dwyrain o'r castell a chafodd ei newid, ond mae'n cadw rhywfaint o'r ffabrig o'r 11eg a'r 12fed ganrif. Mae'n debyg bod ffocws yr anheddiad wedi newid i'r olwg ddeheuol hon ar ôl i'r castell gael ei hadeiladu, ac mae'n bosibl bod dau ffocws wedi bod, lle'r oedd anheddiad yn bodoli cyn ailddodi'r castell ei hun yn yr 16eg ganrif.

Yn dilyn gwerthu castell yn y 16eg ganrif, pan gafodd ei nodi fel adfail, adeiladwyd tŷ ar safle'r castell, gan gadw'r wal llen gromlin i'r de.

Digwyddodd brwydr Sain Ffagan yn yr Ail Ryfel Cartref ym 1648; pan newidiodd lluoedd y Seneddwyr heb eu talu, ochrau ac aethant yn Frenhinwyr, a chwrddon nhw â lluoedd y Seneddwyr rhwng pentref Sain Ffagan a'r Nant Dowlais (a adwaenir hefyd tua'r gorllewin o'r pentref. Gyda lluoedd y Brenhinwyr ar orllewin y nant a

lluoedd y Seneddwyr ar y dwyrain, digwyddodd sgarmes ar 4 Mai, a brwydr ar 8 Mai, a arweiniodd at lwyddiant i’r Seneddwyr.

Aeth y tŷ a’r tiroedd yn adfeilion yn y 19eg ganrif; a phasiwyd o Ystâd Plymouth i gael ei ddefnyddio fel amgueddfa genedlaethol ym 1946. Mae’r tiroedd bellach yn safle i fwy na deugain o adeiladau hanesyddol o ledled Cymru; mae'r rhain yn dyddio o'r cyfnod canoloesol hyd at yn ddiweddarach yn yr 20fed ganrif ac yn cynnwys cyfran o'r Adeiladau Rhestredig o fewn yr AAS. Mae’r tiroedd yn Barc Cofrestredig Gradd I o bedwar prif gyfnod datblygu: 11eg ganrif; 16eg ganrif; 19eg ganrif a’r 20fed ganrif. Cafodd gwahanol arddulliau o ardd gaeedig eu hadfer yn ddiweddarach yn yr 20fed ganrif.


**Llanfihangel-ar-Elái:**

Pentref bychan oedd hwn yn wreiddiol, yn dyddio 'r 13eg ganrif o leiaf: mae Llanfihangel-ar-Elái tua’r de o Afon Elái ac yn ymestyn tua gorllewin a dwyrain y brif ffordd.

Sonnir am eglwys Sant Mihangel ar y pen gorllewinol yn gyntaf yn nogfennaeth o ganol y 13eg ganrif, ac mae deunyddiau adeiladu Rhufeinig yn ei waliau; mae gweddillion y clwstwr anheddiad ddiffaith yn union o amgylch yr eglwys. Mae trac suddedig i'w weld fel y ffordd a arweiniodd trwodd o Ffordd Llanfihangel i’r eglwys, ac mae safleoedd a nodweddion y tŷ yn cynnwys pwll o amgylch yr hyn a oedd yn faes pentref siâp triongl, nodwedd a ddangosir ar fapiau ystâd yr 18fed ganrif. Gellir gweld crofftau a gweddillion pridd platfformau wedi’u codi ar gyfer tai, a waliau uchel o garreg gyda morter, yn sefyll mewn, er eu bod wedi'u cuddio gan ordyfiant a choetir. Mae Tŷ Mawr tua’r de-ddwyrain o’r maes, yn dŷ dwy uned canoloesol sydd wedi ei estyn a’i foderneiddio trwy’r oesau. Ymestynnodd y trac tua’r dwyrain o Ffordd Llanfihangel ac roedd ardal yr anheddiad yn cynnwys Y Llys (bellach Court Cottages), ac efallai bod yr adeiladau ôl-ganoloesol yn cynnwys ffabrig Canoloesol. Gosodir Y Llys o fewn caeadle hirsgwar sy’n edrych dros y llethr i lawr tua’r gogledd.

Mae'r Ardal Archeolegol Sensitif yn dangos y berthynas rhwng y ddau bentref fel dau blwyf tua gogledd a de Afon Elái, ac o fewn Ffi Marchog Maenor Sain Ffagan.  Dirywiodd Sain Ffagan fel pentref ar ôl y 14eg ganrif a thyfodd yn y 16eg ganrif ar adeg pan ddechreuodd Llanfihangel ddirywio o ran llewyrch. Mae mapiau sy’n dyddio i 1775 yn dangos mai’r unig dŷ oedd yn bodoli oedd Tŷ Mawr.

Mae’r pwysau presennol yn amrywio o ran graddfa; mae ardal Llanfihangel yn ddarostyngedig i bwysau datblygiad tai o'r ochr orllewinol lle y mae'r datblygiadau ar ddiwedd yr 20fed ganrif wedi llechfeddiannu i ffin y pentref o'r de; ac mae'r ardal ddwyreiniol yn y Llys wedi bod yn ddarostyngedig i ddatblygiadau mawr o'r gogledd.  Mae’n bosibl bod pentref Sain Ffagan yn cael rhywfaint o bwysau o ddatblygu mewnlenwi, er bod yr ardal ehangach wedi'i chynnwys yn y datblygiadau mwy o ran graddfa. Dylid gwneud ymdrechion i warchod gweddillion archeolegol sy'n sefyll o hyd ar y safle ac sy'n ffurfio ardal graidd yr anheddiad ddiffaith, yn unol â pholisi'r llywodraeth.




Ffigwr 3: Ardal Archeolegol Sensitif Sain Ffagan a Llanfihangel ar Elái

## AAS 4: Gwastadeddau Gwynllŵg

***Cymuned:*** Trowbridge, Tredelerch

***Prif ddynodiadau***
Henebion cofrestredig: GM474 Morglawdd Creiriol ar Glanfa Fawr Rhymni
Adeiladau Rhestredig: 4
Ardaloedd cadwraeth: Dim.

***Cofrestr o Barciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig***
Dim.

***Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol***<0}

Gwastadeddau Gwent HLW (Gt) 2: Yr ardaloedd o gymeriad a gynhwysir yn yr ardal yw:HLCA018 Tredelerch; HLCA019 Trowbridge

***Cofrestrau Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol***

Cofnodion Craidd: 133 (mae un ohonynt yn cynnwys 106 o ddarnau o grochenwaith Rhufeinig)
Cofnodion Digwyddiadau: 70

***Arwyddocâd***
Ardal isel helaeth o lifwaddod morydol; wedi'i adennill o'r môr dros wahanol gyfnodau o'r oes gyn-hanesyddol ymlaen; patrymau aneddiadau, caeadleoedd a draenio nodedig; potensial hynod uchel am ddyddodion archeolegol ac amgylcheddol sylweddol dan y ddaear a llawn dŵr.  Rhwydwaith o systemau draenio artiffisial dros yr ardal gyfan. Dyddodion a gweithgarwch o’r cyfnodau Mesolithig, Neolithig, yr Oes Efydd; yr Oes Haearn a Rhufeinig; canoloesol ac ôl-ganoloesol.

***Rhesymau dros Gynnydd mewn Potensial Archeolegol***
Mae darn Gwastadeddau Gwynllwg Gwastadeddau Gwent yn ffurfio rhan fwyaf yr ardal hon. Yn cynnwys ardal o 5.2 cilomedr sgwâr o fewn ardal Caerdydd, mae’r Dirwedd Gofrestredig hefyd yn ffurfio rhan fawr o’r ardal archeolegol sensitif, ac mae llawer o’r pwysigrwydd Archeolegol yn perthyn i’r Gwastadeddau. Mae aneddiadau o gyfnodau’r Oes Haearn ac oes y Rhufeiniaid yn bennaf ar hyd y rhyngwyneb rhwng y ddaeareg solet a llifwaddodol; sy’n ymddangos ar gyfartaledd 10 metr uwchben lefel y môr.

Mae hyd a lled y dyddodion Archeolegol yn enfawr, fel bod rhwydwaith y system ddraenio sy'n cynnwys ffosydd o wahanol feintiau a chynlluniau yn ardal y gwastadeddau ac yn balimpsest o ddyddiad a mathau. Oherwydd natur y cyfnodau gorlifo a llifwaddod, cafodd tirweddau cyfan eu gwarchod ac yn ymestyn y tu hwnt i forgloddiau i mewn i'r parth rhynglanw. Mae hyn wedi arwain at ddyddodion haenedig o fawn a chlai sy’n cadw gweddillion. Mae’r rhain yn strwythurol, fel yng Nglanfa Fawr Rhymni, a hefyd lle y mae gweddillion sydd fel arfer dros dro, megis olion traed bodau dynol ac anifeiliaid wedi'u cadw yn y clai.

Mae paeleosianeli, hefyd wedi’u hadnabod yng Nglanfa Fawr Rhymni ac ardal Newton, yn sianeli cyrsiau dŵr creiriol sydd wedi’u claddu gan waelodion iau, naill ai trwy weithred ddynol neu naturiol, yn rhoi adnodd enfawr o ddata Archeolegol ac amgylcheddol a all roi gwybod, nid yn unig am gyfnodau gweithgarwch yn y gorffennol ond hefyd natur a dyfnder dyddodion. Daethpwyd o hyd i gychod megis y rhai ymhellach i’r dwyrain ym

Magwyr, sy’n pwysleisio eu bod wedi’u cadw mewn cyflwr hynod o dda, ac mae’r goedwig sy’n ddyfrlawn ac wedi’i chadw’n dda yn dangos bod y nentydd yn fordwyol ac mae’n debygol y byddent wedi cael eu defnyddio ar gyfer trafnidiaeth. Er bod y fath ddarganfyddiadau’n brin, maent yn debygol o gynrychioli gweithgarwch ehangach.


Mae Ffosydd Draenio mawr yn dod o ganlyniad i weithredoedd naturiol ac artiffisial, a chânt eu bwydo gan grwn a rhych, i afaelion, ffosydd cae a thrwy’r gowtiau lle y mae ffosydd draenio yn cwrdd, ac i mewn i byllau lle y mae dŵr yn mynd i’r môr. Mae dyddodion archeolegol a thystiolaeth balaeo-amgylcheddol yn galluogi cofnodi datblygu'r dirwedd a'i rheoli.

Ar hyd y rhyngwyneb daearegol, mae ymchwil archeolegol, mewn cysylltiad â datblygu ac ymchwil wedi dangos bod yr ardal hon wedi'i setlo'n fwy dwys yn ystod y cyfnodau Rhufeinig a Chanoloesol, a chafodd y tir is ei ddefnyddio ar gyfer amaeth. Mae gwaith archeolegol mewn aneddiadau megis yn Newton a Trowbridge ac yn benodol datblygiadau yn ardaloedd 9-12 Llaneirwg wedi nodi dyddodion sy'n aml yn gymhleth, mewn rhai achosion wedi'u cadw'n dda, yn dyddio yn ôl i'r cyfnodau cyn-hanesyddol a Rhufeinig.

Mae’r risg i’r gweddillion archeolegol yn bennaf trwy effaith datblygiadau o bob math, gan ddefnyddio a chymryd mantais o'r tir gwastad, a'r rhwydwaith cyfathrebu a leolir yn dda. Mae dwy ffurf o effaith yn ffurfio bygythiad ffisegol i archaeoleg y Gwastadeddau. Yn gyntaf, mae bygythiad i natur y dyddodion sy’n cynnwys sefyllfaoedd lle y mae datblygiadau ar raddfa eang, a/neu dreiddio, mawn, silt a chlai swbstrad a’r rhain yn sychu yn y pen draw, yn arwain at gywasgu a dadhydradu dyddodion anaerobig. Yn ail, yr effaith ehangach y mae’n bosibl y bydd datblygu’n ei chael ar y dirwedd. Gan fod cymeriad y dirwedd yn cael ei adnabod a’i ddyddio yn ôl arddull caeadleoedd, caeau, traciau a draenio, mae'n bosibl y bydd datblygu o faint bach hyd yn oed yn cael effaith gronnol o effaith annerbyniol ar y dirwedd ei hun.

Gall ASIDOHL, sef asesiad o arwyddocâd effaith datblygiad ar dirwedd hanesyddol, gael ei sbarduno gan faint neu natur datblygiad posibl o fewn tirwedd gofrestredig. Mae’n weithdrefn sy'n ystyried yr effaith ffisegol a gweledol y gallai'r datblygiad arfaethedig ei chael o bosibl ar ardaloedd cymeriad y dirwedd. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn cael ei sbarduno yn achos datblygiadau bach, fodd bynnag mae niferoedd cynyddol o ddatblygiadau bach yn erydu ardaloedd cymeriad a lleihau arwyddocâd nodweddion y dirwedd.

Mae’n rhaid i unrhyw ddatblygiad hefyd gymryd i ystyriaeth effaith weledol a ffisegol ar leoliad yr henebion cofrestredig.




Ffigwr 4: Ardal Archeolegol Sensitif Gwastadeddau Gwynllwg

## Atodiad A: Sut mae dod o hyd i archeolegydd?

Mae Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIfA) yn hyrwyddo ymarfer archaeoleg a disgyblaethau perthynol trwy hyrwyddo safonau a moeseg er mwyn cadw, rheoli, deall a hyrwyddo mwynhau treftadaeth. Mae CIfA yn sefydliad proffesiynol ar gyfer pob archeolegydd ac eraill sy'n ymwneud â gwarchod a deall yr Amgylchedd Hanesyddol.

Mae gan Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ddolen at restr y gellir ei chwilio ar gyfer Sefydliadau Cofrestredig. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau bach a mawr gyda gwahanol feysydd arbenigedd ac mewn lleoliadau daearyddol gwahanol.

www.archaeologists.net/ro

**Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr**
Miller Building, University of Reading RG6 6AB
0118 378 6446 admin@archaeologists.net

## Atodiad B: Rhestr termau

**Archif**
Mae archif y project yn cyfeirio at gasgliad trefnus o'r holl ddogfennau ac arteffactau o broject archeolegol, y dylid ei ddyddodi mewn ystorfa gyhoeddus gymeradwy, megis amgueddfa. Mae’r archif ysgrifenedig yn cyfeirio at gasgliad trefnus y dogfennau a'r data a gynhyrchir gan y project, a dylid ei ddyddodi gydag ystorfa gyhoeddus addas megis Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol.
Mae asesiad wrth ddesg yn ystyriaeth fanwl o’r adnodd archeolegol y gwyddys amdano neu’r adnodd posibl o fewn ardal neu safle penodedig (ar y tir, rhynglanwol neu o dan y dŵr), sy’n cynnwys coladiad o wybodaeth ysgrifenedig a graffig presennol er mwyn adnabod cymeriad, graddau, ansawdd a gwerth tebygol yr adnodd archeolegol a ganfuwyd neu y gellir ei ganfod mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol neu genedlaethol fel sy’n briodol.
**Asesiad Risg**
Dogfen a baratowyd i fodloni gofynion *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992* gan asesu'r holl risgiau i iechyd a diogelwch cyflogeion ac eraill, sy’n codi gweithgarwch gwaith. Dogfen a baratowyd i fodloni gofynion *Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1992* gan asesu'r holl risgiau i iechyd a diogelwch cyflogeion ac eraill, sy’n codi weithgarwch gwaith.

**Briff**
Fframwaith amlinellol y sefyllfa Archeolegol y mae’n rhaid mynd i’r afael ag ef, ynghyd â syniad o gwmpas y gwaith a fydd yn ofynnol.

**Cadw**
Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru: Mae Cadw yn gyfrifol am y materion cynllunio sy’n effeithio ar henebion, adeiladau a pharciau, gerddi a thirweddau a warchodir yn statudol. Maent hefyd yn rhoi cymorth grant i adeiladau hanesyddol a chofadeiladau ac yn rheoli henebion sydd yng ngofal uniongyrchol y Wladwriaeth.

**Cloddio**
Rhaglen o waith maes a rheolir, sy’n ymwthiol, dadansoddiad a dehongliad ôl-gloddio gyda’r bwriad o gadw’r adnodd Archeolegol trwy gofnod gan ddefnyddio dulliau ac arferion priodol, yr ymgymerir ag ef yn ôl amcanion ymchwil ddiffiniedig. Bydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiadau arbenigol, adroddiad terfynol ac archif drefnus, a lledaenu'r canlyniadau yn briodol trwy gyhoeddiad academaidd ac ymgysylltu’n gyhoeddus.

**Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol (HER)**
Cofnod dogfennol o safleoedd hysbys mewn ardal benodol. Yn ne-ddwyrain Cymru, caiff yr HER ei guradu gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent.

**Contractwr Archeolegol**
Unigolyn gyda chymwysterau proffesiynol neu sefydliad sy'n cynnwys staff archeolegol gyda chymwysterau proffesiynol, ac yn gallu cynnig triniaeth briodol a boddhaol o'r adnodd archeolegol, wedi’u cadw gan y datblygwr i ymgymryd â gwaith archeolegol naill ai cyn cyflwyno cais cynllunio neu fel gofyniad y broses gynllunio. Gellir dod o hyd i ddolen i restr CIfA o Sefydliadau Cofrestredig yn www.archaeologists.net/ro.

**Curadur Archeolegol**
Person neu sefydliad sy'n gyfrifol am gadw a rheoli tystiolaeth archeolegol trwy rinwedd dyletswyddau

swyddogol neu statudol. Yng Nghymru, yr ymgynghorwyr i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yw Gwasanaethau Cynllunio Archeolegol yr Ymddiriedolaethau Archeolegol Rhanbarthol, y maent oll yn gweithio yn ôl *Cod Ymarfer y Curaduron* Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru. Yn ne-ddwyrain Cymru mae'r 12 Cyngor Unedol yn cael eu gwasanaethau gan Wasanaeth Cynllunio Archeolegol Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent.

**Data Craidd**
Mae niferoedd data craidd yn cyfeirio at y safleoedd a'r darganfyddiadau a gofnodir yn y gofrestr HER o wahanol ffynonellau partneriaeth.

**Data Digwyddiadau**
Mae data ar ddigwyddiadau yn perthyn i ymyriad Archeolegol a gofnodwyd, er enghraifft, gwaith nad yw'r ymwthiol megis asesiadau asedau archeolegol neu dreftadaeth, gwerthusiadau, recordiadau adeiladau ac arolygon geoffisegol, a gwaith ymwthiol megis cloddfeydd, arfarniadau maes, a monitro gwaith datblygu, pyllau prawf a samplo ymwthiol.

**Gorchwyl Gwylio**
Diffinnir gorchwyl gwylio archeolegol fel rhaglen o arsylwi, ymchwilio a chofnodi a gynhelir yn ystod unrhyw weithrediad yr ymgymerir ag ef am resymau nad ydynt yn archeolegol o fewn ardal neu safle penodedig, lle y bo posibilrwydd y gellir ymyrryd â dyddodion archeolegol neu eu dinistrio. Bydd y rhaglen waith yn arwain at baratoi adroddiad ac archif drefnus.

**Gwerthusiad**
Mae gwerthusiad yn rhagchwiliad cyflym o'r safle a'r cofnodion er mwyn nodi a oes gan gynnig datblygu dimensiwn archeolegol posibl sy'n gofyn am ragor o eglurhad.

**Manyleb**
Atodlen ysgrifenedig o waith sy'n ofynnol ar gyfer gwrthrych penodol (gan guradur, archeolegydd cynllunio neu gleient), wedi'i gosod yn ddigon manwl i fod yn fesuradwy, wedi'i weithredu ac wedi'i fonitro. Caiff ei pharatoi fel arfer gan y curadur perthnasol neu ei chytuno gydag ef.

**Mesolithig**
Rhaniad cronolegol o'r cofnod cyn-hanesyddol; y cyfnod o ddiwedd yr oes iâ diwethaf i ddechrau ffermio. Y dyddiadau yw rhwng tua 10,000 a 4,000 CC.

**Modern**
Y cyfnod ers tua 1900 OC

**Naturiol**
Term Archeolegol am ddaeareg naturiol heb darfu arni ar safle.

**Neolithig**
Rhaniad cronolegol o'r cyfnod cyn-hanesyddol pan gyflwynwyd amaethyddiaeth ac anifeiliaid domestig i Brydain. Y dyddiadau yw rhwng tua 4,500 a 2,300 CC.

**NGR**
Cyfeirnod Grid Cenedlaethol

**Oes Efydd**
Rhaniad cronolegol o’r cyfnod cyn-hanesyddol, sy’n gweld cyflwyniad copr mabwysiadau efydd yn eang yn y pen draw i'w ddefnyddio mewn arfau, gemwaith ayyb. Ym Mhrydain y dyddiadau yw rhwng tua 2300 a 700 CC.

**Ôl-ganoloesol**
Y cyfnod rhwng 1485 a 1900 OC.

**Palaeolithig**
Rhaniad cynharaf y cyfnod cyn-hanesyddol, o dystiolaeth gyntaf gwneud offer gan fodau dynol i iâ rhewlifol yn cilio am y tro olaf o Brydain. Y dyddiadau yw rhwng tua 500,000 a 10,000 CC.

**Rhufeinig**
Y cyfnod pan fu Prydain yn cael eu teyrnasu gan Rufain tua 45-410 AD

**Rhufeinig-Brydeinig**
Y term a ddefnyddir i ddisgrifio ymasiad traddodiadau brodorol diwedd yr Oes Haearn gyda diwylliant Rhufeinig.

**Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr**
Mae Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA) yn hyrwyddo ymarfer archaeoleg a disgyblaethau perthynol trwy hyrwyddo safonau a moeseg er mwyn cadw, rheoli, deall a hyrwyddo mwynhau treftadaeth. Mae CIfA yn sefydliad proffesiynol ar gyfer pob archeolegydd ac eraill sy’n ymwneud â gwarchod a deall yr Amgylchedd Hanesyddol.

**Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru**
Mae 4 Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru, Clwyd-Powys, Gwynedd a Morgannwg-Gwent. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaethau rhwng 1974 a 1975 er mwyn ymgymryd â gwaith achub archeolegol yng Nghymru. Bellach, rhennir yr Ymddiriedolaethau yn Gontractau a Gwasanaethau Curadol. Maent i gyd yn elusennau ond hefyd yn gwmnïau cyfyngedig.

## Atodiad C: Sylwadau ac Ymatebion Ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft

Mae'r rhain ar gael ar gais

## Atodiad ELlyfryddiaeth: Deddfwriaeth a Chanllawiau:

Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016)
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96: *Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg*
Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 016/2014 *Defnydd Amodau Cynllunio ar gyfer Rheoli Datblygiadau*
Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig: *Gorfodi Rheolaeth Gynllunio: Darpariaethau Deddfwriaethol a Gofynion Gweithdrefnol*

Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cadw: Cydsyniad Henebion Cofrestredig 2007
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cadw: Egwyddorion Cadwraeth 2011

CARDIFF
CAERDYDD